

Dod i'nabod aelodau o Glwb Gwawr

BETHAN, RHIAN A RUTH

Tair Chwaer Ogwr

Cafodd Bethan, Rhian a Ruth eu geni a'u magu ym Mhenybont-ar-Ogwr ar aelwyd ddwyieithog. Mae eu rhieni, Howard a Siân Hicks, yn wreiddiol o ardal Castellnewydd Emlyn; symudon nhw i Benybont



Bethan, Ruth a Rhian

yn rhinwedd eu swyddi fel athrawon. Mae'r dair chwaer yn dal i fyw ym Mhen-y-Bont ac yn gweithio fel athrawon cynradd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardal. Maent wedi treulio llawer o amser yng nghwmni ei gilydd erioed ac ers cael plant maent yn treulio mwy o amser gyda'i gilydd.

Maent wedi bod yn aelodau ffyddlon o CG Ogwr ers chwe mlynedd, gan ddilyn esiampl eu mam sydd wedi bod yn aelod o Merched y Wawr ers y 70au cynnar. Bethan yw'r hynaf, Rhian yn y canol a Ruth yw babi'r teulu.

Bu Ruth Morgan yn eu holi . . .

Dwedwch rhywbeth am eich plentyndod:

Ruth: Pysur iawn . . . gwersi nofio, dawnsio a phiano, Brownies, Yr Urdd a'r Ysgol Sul. Yn ein harddegau roeddem yn aelodau o Barti Bro Ogwr, côr ieuencid lleol. Aethom i Ysgol Gynradd Gymraeg Penybont ac Ysgol Gyfun Llanhari. Roedd

digon o 'hiwmor, hormones a hwyl' yn ein tŷ ni wrth i ni dyfu i fyny!

Beth am eich personoliaethau pan o'ch chi'n fach?

Bethan: Angylaidd wrth gwrs – tan fy arddegau! Roedd Rhian yn annwyl iawn, er yn ddireidus! Enw'r teulu am Ruth oedd 'Y swigw fach' – roedd hi'n fadam!

Beth am wyliau wrth dyfu lan?

Rhian: Atgofion melys o dreulio gwyliau ysgol gyda mamgu a'r teulu yn Nrefach Felindre. Rhyddid i grwydro'r pentref gyda'n cefndryd, chwarae yn y parc, mynd i gaffi'r Amgueddfa Wlân a chreu llochesi yng ngardd mamgu. Mynd i draethau Llangrannog, Tresaith, Aberporth a Chei Newydd, heb anghofio'r uchafbwynt – sef sglodion a hufen iâ mêl yn Aberaeron! Ro'n ni hefyd yn gwersylla – Dyfnaint, Cernyw, Jersey ac Ynys Wyth. Erbyn ein harddegau, ymestyn ein gorwelion gan logi pabell parod yn Ffrainc – 'luxury' . . .

oergell, stôf a gwelyau go iawn!

Beth wnaethoch chi ar ôl gadael ysgol?

Bethan: Es i i Brifysgol Abertawe i astudio'r Gymraeg ac Almaeneg, gan gwblhau Gradd Meistr yn y Gymraeg. Treuliais fy mlwyddyn dramor yn Bregenz, Awstria, gan fwynhau'r sgïo yno. Gweithiais fel Uwch Gyfieithydd yng Nghaerdydd, cyn gweithio i Adran Addysg Llywodraeth Cymru fe Rheolwr Prosiectau. Ar ôl gweithio mewn swyddfeydd penderfynais hyfforddi fel athrawes gynradd. Dwi'n nawr yn athrawes yn Ysgol y Ferch o'r Sgêr, sir Penybont. Ar hyn o bryd, dwi ar gyfnod mamolaeth er mwyn gofalu am fy nhrydydd plentyn, Mili. Mae Soffia (4) a Sam (2) yn fy nghadw'n brysur hefyd!
Rhian: Es i hefyd i Brifysgol Abertawe lle cefais radd yn y Saesneg, gan gwblhau cwrs TAR y flwyddyn ganlynol i fod yn athrawes. Wedi graddio, swydd yn Ysgol



Bethan, Ruth (ar gôl mam) a Rhian

Cynwyd Sant ym Maesteg, lle dwi'n parhau i weithio. Mae gen i ddau o blant, Mali (3) a Jac (8 mis). Yn rhyfedd iawn mae'r ddau yn rhannu yr un penblwydd!

Ruth: Es i i Brifysgol Caerdydd i astudio Ffrangeg a'r Gyfraith. Es i hefyd ymlaen i wneud cwrs TAR a chael swydd yn Ysgol Lonlas, Abertawe, cyn symud i weithio yn Ysgol Bro Ogwr. Mae gen i ddwy o ferched, Mia (7) ac Ela (5).

Hoff Fwyd, Diod & Rhaglen Deledu?

Rhian: Dishgled o goffi; bara ffres gyda menyng go iawn a gwyllo *Stella*.

Ruth: Pepsi Max; Cinio Dydd Sul a gwyllo *Location, Location, Location*.

Bethan: Glasied o win gwyn a lasagne, a gwyllo *Holby City*.

Beth am amser hamdden?

Bethan: Mae Clwb Gwawr Ogwr yn gyfle gwych i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau fel nosweithiau swisho, gwyllo dramâu Cymraeg, gwledda. Dwi hefyd yn mwynhau treulio penwythnosau gyda theulu a ffrindiau, a bob amser yn awyddus i fynd ar wyliau.

Rhian: Dwi wedi bod i Gernyw dros 30 o weithiau! Bues yn Gysylltydd CG Ogwr am ddwy flynedd, ac mae'r tair ohonom wedi trefnu gweithgareddau yno yn ein tro. Rydym wedi cynnal gweithgareddau ar y cyd gyda Merched y Wawr ac wedi paratoi te ym Mhabell MyW yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili 2105.

Ruth: Dwi wedi parhau i chwarae'r delyn ac wedi ail-yngymryd ag astudio theori cerddoriaeth. Ar hyn o bryd rydym yn brysur yn paratoi a chodi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd 2017 sy'n rhoi cyfle arall i ni'n tair a'r gymuned fwynhau a chymdeithasu trwy'r Gymraeg.